ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050

Ydych chi'n awyddus i gyflogi person ifanc?

Mae gan Llwyddo'n Lleol 2050 cyfle arbennig i fusnesau i fod yn rhan o'n elfen Gyrfaol.

CEFNDIR ARFOR

Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn yw'r siroedd gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ond mae'r nifer wedi bod yn gostwng ers amser maith. Mae cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn nod allweddol i Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050. Mae Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn hefyd yn siroedd sydd gyda heriau economaidd gan eu bod yn siroedd gwledig gyda chyflogau isel.

Clustnodwyd £11 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod 2022/2023 i -2024/25 i ganiatáu'r pedair sir i gydweithio a chreu ymyraethau i sicrhau ffyniant economi Gorllewin Cymru ac i arbrofi a threialu cynlluniau i'r perwyl.

Mae ARFOR felly yn rhaglen ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith.

O dan Raglen ARFOR mae yna nifer o gronfeydd sy'n cynnig grantiau ariannol i fusnesau ac unigolion megis Cronfa Her ARFOR a'r Gronfa Genfnogaeth Cymunedau Mentrus.

Am fwy o wybodaeth am yr uchod a rhaglen ARFOR gweler: www.rhaglenarfor.cymru

CEFNDIR LLWYDDO'N LLEOL 2050

Un o brosiectau Rhaglen ARFOR yw Llwyddo'n Lleol 2050. Gydag allfudo teuluoedd a phobl ifanc yn cael ei gydnabod fel un o'r prif resymau am ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd, nod Llwyddo'n Lleol 2050 yw darbwyllo pobl ifanc a theuluoedd ifanc sydd mewn peryg o adael neu sydd eisoes wedi ymadael bod modd cael dyfodol disglair, gyda swydd dda o fewn maes cyffrous, yn eu cymuned gynhenid.

Mae yna bedair elfen i brosiect Llwyddo'n Lleol 2050:

1. Elfen Gyrfaol
2. Elfen Mentro
3. Elfen Ymgartrefu
4. Elfen Profi

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

LLWYDDO'N LLEOL 2050

CEFNFIR YR ELFEN GYRFAOL:
Bydd yr elfen yma yn tynnu sylw at y cyfleoedd gyrfaol a chymdeithasol sy'n bodoli yn ardal ARFOR. Drwy'r elfen yma bydd Llwyddo'n Lleol 2050 yn amlygu'r cwmnïau cyffrous sydd yn gweithredu mewn meysydd arloesol yng Ngorllewin Cymru gan ddefnyddio enghreifftiau o bobl sy'n gweithio yn y meysydd yma.

Mi fyddwn yn cynnig cymorth i unigolion dan 35 oed i fedru adnabod y cyfleoedd gwaith yn ei hardaloedd ac yn cynnig cymorth i fusnesau yn ardal ARFOR i gynnig cyflogaeth i bobl ifanc lleol.

Ochr yn ochr â'r cyfleoedd proffesiynol bydd cyfranogwyr hefyd yn derbyn profiadau cymdeithasol. Bydd rhain yn cael eu trefnu dan arweiniad staff y cynllun.

Drwy'r ffenest agored yma rydym yn gobeithio gallu paru busnesau sy'n chwilio i gyflogi unigolyn ifanc brwdfrydig mewn maes arbennig gydag unigolion ifanc dan 35 oed sy'n chwilio am waith neu cyfleoedd yn y meysydd hynny.

CANLLAWIAU:

Pwy sy'n gymwys?

- Busnes neu sefydliad sydd a cyfle / swydd gwerthfawr i gynnig i unigolyn lleol
- Busnes neu sefydliad sydd a cyfle gwerthfawr i ddatblygu aelod staff / cynnig profiadau newydd i aelod staff presennol
- Busnes neu sefydliad sydd a'i prif swyddfa neu yn gweithredu o fewn ardal ARFOR – siroedd Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd a Ynys Môn
- Busnes neu sefydliad sy'n cael ei redeg yn bennaf drwy'r Gymraeg neu oleuaf yn rhoi pwyslais/platfform gwbl gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.

Beth allwch chi ei gynnig?

- Lleoliad gwaith o fewn maes arloesol – er enghraifft - technoleg, gwyddoniaeth, carbon niwtral, marchnata digidol, cyfathrebu, iechyd a lles, ynni adnewyddol, technoleg amaethyddol ayyb
- Cynnig cyfnod o waith i'r unigolyn **a/neu** profiadau arbennig dros gyfnod amhenodol
- Cynnig cyfleodd gwaith diddorol i'r unigolyn
- Cynnig sesiynnau mentora a hyfforddiant i'r unigolyn er mwyn iddyn nhw fuddio cymaint a phosib o'r bartneriaeth
- Creu cynllun hir-dymor sy'n dangos gwaddol ac effaith y gefnogaeth.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

LLWYDDO'N LLEOL 2050

Beth allwn ni ei gynnig?

- Mi fydd modd i chi gyflwyno cais am **hyd at** £12,000 tuag at costau cyflog, cyfleoedd arbennig, a/neu hyfforddiant aelod staff dan 35 oed.
- Rydym am weld y gyllideb yn cael ei ddefnyddio i gynnig profiadau a chyfleoedd unigryw i unigolion, gan ychwanegu gwerth at gwmni/sefydliad yr un pryd.
- Gellir cefnogi pobl sydd mewn gwaith yn barod (h.y. busnes yn ceisio am gefnogaeth i ddatblygu aelod presennol o staff), neu gellir cynnig cyfle/swydd i bobl a rhieni ifanc o'r newydd.
- Bydd y gefnogaeth ar gyfer lleoliadau o'r newydd yn amrywio yn ôl gofynion y busnesau / unigolion e.e. cyfraniad at gyflog, cyfraniad at rent teulu ifanc, trefnu cyfnod prawf o bell i unigolyn neu deulu sy'n chwarae gyda'r syniad o ddychwelyd.
- Ar yr un pryd, tu allan i gyfleoedd gaiff eu cynnig gan fusnesau / sefydliadau, bydd y bobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol (bydd hyn yn cael ei drefnu dan arweiniad tîm llwyddo'n Lleol).
- Gellir defnyddio'r arian dros gyfnod penodol e.e. gellir cyfrannu hyd at £1000 y mis am 12 mis tuag at cyflog. Mae hyd y cynnig / gwaith yn gallu amrywio yn dibynnu ar y pecyn yn ei gyfanrwydd.
- Bydd Llwyddo'n Lleol yn recriwtio pobl ifanc i gymryd rhan yn y rhaglen ac yn paru'r pobl ifanc gyda cwmnïau / sefydliadau o'r un maes gwaith. Byddwch fel busnes yn rhan o'r broses pennu honno. NODER – Mae hefyd modd i gwmnïau / sefydliadau adnabod unigolion eu hunain.

TELERAU'R GEFNOGAETH:

Beth sy'n ofynnol o'r cwmni/busnes/sefydliad?

- Mae disgwyl ymrwymiad llawn gan aelodau'r rhaglen i gefnogi datblygiad proffesiynol / profiadau newydd yr aelod newydd o staff / yr unigolyn.
- Mae'n ofynnol i'r cwmni/busnes/sefydliad gyflwyno adroddiadau cynnydd rheoliad i'r prosiect a chlustnodi amser i ddal fyny gyda Swyddog Prosiect yr ardal yn rheolaidd er mwyn trafod cynnydd yr unigolyn ac unrhyw anawsterau sydd wedi codi.
- Mae'n ofynnol i'r cwmni/busnes/sefydliad i ymrwymo i fwydo ymgyrch marchnata Llwyddo'n Lleol drwy hyrwyddo'r prosiect yn enwedig ar y Cyfryngau Cymdeithasol a chyfrannu at amcanion y prosiect dan arweiniad tîm Llwyddo'n Lleol drwy gyfranu at cyfweliadau a rhyddhau yr unigolyn ar gyfer hyrwyddo'r prosiect o bryd i'w gilydd.
- Mae'n ofynnol i'r cwmni/busnes/sefydliad sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ymrwymo i gymryd rhan yng ngwerthusiad y prosiect.
- Mae'n ofynnol i'r cwmni/busnes/sefydliad sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i gwblhau asesiad Iaith sy'n cael ei gynnal gan Comisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r broses ag

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

ymrwymo i weithio gyda'r Comisiynydd i gael cydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg erbyn Rhagfyr 2024.

- Disgwylir i'r cwmni/busnes/sefydliad sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ystyried llofnodi'r Addewid Twf Gwyrdd
- Disgwylir i'r cwmni/busnes/sefydliad sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ystyried llofnodi'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi
- Disgwylir i'r cwmni/busnes/sefydliad sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ystyried llofnodi'r Addewid Cydraddoldeb | Busnes Cymru (gov.wales)

NODER

- Mi fydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus i arwyddo cytundeb yn ymrwymo i'r gofynion a'r telerau uchod cyn mynd ati i gyflogi'r aelod o staff.
- Bydd yn rhaid dangos tystiolaeth (e.e. taflen amser) fod yr arian a dderbynir yn cael ei wario yn unol â'r gytundeb.
- Mae'r prosiect yn cael ei weinyddu gan Menter Môn a Menter a Busnes ac mae gan y gweinyddwyr yr hawl i ddal taliadau yn ôl, i beidio rhoi taliad llawn ac i fynnu ad-daliad os nad ydych fel cyfranogwr yn cwrdd â'r gofynion a'r telerau uchod.

Dyddiadau allweddol:

Dyma'r ffenest ymgeisio gyntaf o dan yr elfen Gyrfaol ac mi fydd y ffenest yn agored rhwng y 13eg o Hydref a'r 12fed o Dachwedd. Dylid dychwelyd unrhyw ffurflen gais erbyn 23:59 ar y 12fed o Dachwedd.

*****Cyntaf i'r felin fydd hi, felly peidiwch oedi rhag ymgeisio!*****

Sut i ymgeisio?

I ymgeisio llenwch y **Ffurflen Gais** yma.

Sgorio:

Mi fydd yna banel o swyddogion yn cwrdd i sgorio'r ceisiadau ac yn eich hysbysu os ydych wedi bod yn llwyddiannus ai pedio.

Am ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â **llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050

Would you like to employ a young person?

Llwyddo'n Lleol 2050 has a unique opportunity for businesses to be part of our 'Gyrfaol' initiative.

ARFOR BACKGROUND

Ceredigion, Gwynedd, Carmarthenshire and Anglesey are the counties with the highest percentage of Welsh speakers but the number has been decreasing for a long time. Increasing the number of Welsh speakers is a key goal for the Welsh Government through the Welsh Language Strategy Plan 2050. Ceredigion, Gwynedd, Carmarthenshire and Anglesey are also counties with economic challenges as they are rural counties with low wages.

£11 million has been earmarked by the Welsh Government for the period 2022/2023 to 2024/2025 to allow the four counties to work together and create interventions to ensure the prosperity of the West Wales economy and to experiment and trial schemes to that end.

ARFOR therefore is a joint venture by Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey Councils which seeks to use entrepreneurship and economic development to support the heartlands of the Welsh language and, thus, maintain the language.

The ARFOR programme includes a number of funds that offer grants to businesses and individuals, such as the ARFOR Challenge Fund and the Enterprising Communities Support Fund.

For more information on the above and the ARFOR programme go to: www.rhaglenarfor.cymru

LLWYDDO'N LLEOL 2050 BACKGROUND

One of the ARFOR programme projects is Llwyddo'n Lleol 2050. With out-migration of families and young people being recognised as one of the main reasons for a decline in the number of Welsh speakers, Llwyddo'n Lleol aims to persuade those who are most likely to go, or who have already left, that they can have a bright future and a good job in an exciting field of work within their local communities.

There are four elements to the Llwyddo'n Lleol 2050 project:

1. 'Gyrfaol' initiative
2. 'Mentro' initiative
3. 'Ymgartrefu' initiative
4. 'Profi' initiative

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

LLWYDDO'N LLEOL 2050

'GYRFAOL' INITIATIVE BACKGROUND:
This initiative will highlight the career and social opportunities that exist in the ARFOR area. Through this initiative Llwyddo'n Lleol 2050 will highlight the exciting companies operating within innovative fields in West Wales, using examples of people who work in these fields.

We will be offering support to individuals under the age of 35 to identify work opportunities in their area, and offering support to businesses in the ARFOR area to offer employment to local young people.

Alongside the professional opportunities, participants will also be given social experiences. These will be organised under the guidance of scheme members of staff.

Through this open window we hope to be able to pair businesses that are keen to employ an enthusiastic young person in a specific field with young people under the age of 35 who are looking for work or opportunities in those fields.

GUIDELINES:

Who is eligible?

- A business or establishment that has a valuable opportunity/post to offer a local individual
- A business or establishment that has a valuable opportunity to develop a staff member / offer a current staff member new experiences
- A business or establishment that operates or has its main office in the ARFOR area – i.e. the counties of Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey
- A business or establishment that is run primarily through the medium of Welsh or at least gives both Welsh and English an equal platform/emphasis.

What can you offer?

- A work placement within an innovative area – for example – technology, science, carbon neutral, digital marketing, communication, health and welfare, renewable energy, agri-tech etc.
- Offer the individual a period of work **and/or** unique experiences over an unspecified period
- Offer the individual interesting work opportunities
- Offer the individual mentoring and training sessions so that they benefit as much as possible from the partnership
- Create a long-term plan that shows the legacy and impact of the support.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

LLWYDDO'N LLEOL 2050

What can we offer?

- You may apply for **up to** £12,000 towards the cost of wages, special opportunities and/or training a staff member under the age of 35.
- We want to see the budget being used to offer individuals unique experiences and opportunities, whilst also adding value to the company/establishment.
- Support may be given to people who are already in employment (i.e. a business seeking support to develop a current member of staff), or a new opportunity/post can be offered to people and young parents.
- The support for new placements will vary according to the requirements of the business/individual e.g. a contribution towards wages, a contribution towards a young family's rent, organising a remote trial period for an individual or family who are considering returning.
- At the same time, as well as opportunities offered by businesses/establishments, young people will take part in social events (this will be organised under the guidance of the Llwyddo'n Lleol team).
- The money may be used over a specific period e.g. a contribution of up to £1000 a month for 12 months towards wages. The length of the offer/work may vary depending on the package in its entirety.
- Llwyddo'n Lleol will recruit young people to take part in the programme and will pair young people with companies/establishments from the same field of work. You, as a business, will be part of that allocation process. Note – Companies/establishments can also identify their own individuals.

TERMS OF THE SUPPORT:

What is required of the company/business/establishment?

- A full commitment is expected from programme members to support the professional development / new experiences of the new staff member / individual.
- The company/business/establishment is required to provide regular progress reports to the project and earmark time for a catch-up with the area Project Officer on a regular basis, to discuss the individual's progress and any difficulties that have arisen.
- The company/business/establishment is required to feed into the Llwyddo'n Lleol marketing campaign by promoting the project, especially on Social Media, and to contribute to the aims of the project under the guidance of the Llwyddo'n Lleol team, by taking part in interviews, and releasing the individual to promote the project from time to time.
- The company/business/establishment receiving support through the project is required to commit to taking part in the project evaluation.
- The company/business/establishment receiving support through the project is required to complete a language assessment conducted by the Welsh Language Commissioner as part

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

of the process, and to commit to working with the Commissioner to receive The Welsh Offer recognition by December 2024.

- The company/business/establishment receiving support through the project is expected to consider signing the Green Growth Pledge
- The company/business/establishment receiving support through the project is expected to consider signing the Code of Practice on Ethical Employment in Supply Chains
- The company/business/establishment receiving support through the project is expected to consider signing the Business Wales | Equality Pledge (gov.wales)

NOTE

- Successful applicants will be required to sign a contract committing to the above terms and requirements before proceeding to employ the staff member.
- Evidence will need to be shown (e.g. a timesheet) that the money received is being spent in accordance with the contract.
- The project is being administered by Menter Môn and Menter a Busnes and the administrators have the right to withhold payments, not to pay in full, and to insist on a refund if you, as a participant, do not fulfil the above terms and requirements.

Key dates:

This is the first application window of the 'Gyrfaol' initiative and the window will be open between 13th October and 12th November. All application forms should be returned by 23:59 on 12th November.

*****It's first come first served, so don't delay before applying!*****

How to apply

To apply, complete the **Application Form** here.

Scoring:

A panel of officials will meet to score applications and will notify you whether you have been successful or not.

For more information or if you have any questions contact
llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government